Galw am Uchelgais Teithio Llesol

Wrth siarad mewn gweithdy yng Nghaerdydd, rhybuddiodd Lee Waters yr awdurdodau y bydd y rownd ddiweddaraf o gyllid yn gwobrwyo syniadau uchelgeisiol yn hytrach na bod yn seiliedig ar wasgariad daearyddol yn unig, ac addawodd gefnogi'r cynghorau hynny sydd angen help i wella eu cynlluniau teithio llesol yn y dyfodol.

Dywedodd, "Mae cael pobl i beidio defnyddio eu ceir ar gyfer siwrneiau byr a theithio mewn ffordd sy'n gwella eu hiechyd yn agenda uchelgeisiol ond mae'r manteision yn niferus, megis aer glanach, llai o dagfeydd ar y ffyrdd, gwell iechyd meddwl a siopau lleol prysurach. Fel y gwelwn mewn gwledydd eraill, mae ei effaith yn gallu trawsnewid bywydau. Os ydym am drawsnewid dewisiadau trafnidiaeth a theimlo'r manteision, rhaid inni feddwl yn fawr a bod yn uchelgeisiol.

YN Y RHIFYN HWN:

Galw am Uchelgais Teithio Llesol
Amlygu'r Pump Marwol yn Greadigol
Lansio Canolfan Gyfeirio Ar-lein
Ariannu Camerâu Cyflymder Cyfartalog
Ymgynghoriad ar Deiars Hŷn
Canlyniadau Arolwg Cyflwr Ffyrdd

Mae ein Deddf Teithio Llesol yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gyd, nid yn unig yr adrannau trafnidiaeth i hyrwyddo teithio llesol, gan sicrhau llwybrau a chyfleusterau newydd. Mae cydweithio da rhwng yr adrannau cynllunio, tai, datblygu economaidd, addysg, adfywio a gwasanaethau eraill yn hanfodol i gael y budd mwyaf o gyfleoedd i gynyddu lefelau cerdded a beicio, i wneud yn siŵr bod gennym y math cywir o seilwaith sy'n galluogi pobl i symud rhwng lleoliadau.

Nid yw awdurdodau lleol wedi bod yn ddigon uchelgeisiol wrth lunio'r set gyntaf o gynigion. Hyd yn oed pan fyddant wedi'u datblygu'n gyfan gwbl, ni fyddant yn creu'r seilwaith a fydd yn galluogi pobl yng Nghymru i ddewis cerdded a beicio fel y ffordd fwyaf naturiol o deithio pellteroedd byr bob dydd. Yn wir, mae gan lawer iawn ohonynt dal llawer iawn o waith i'w wneud."

Gan ddeall y pwysau sydd ar awdurdodau lleol, esboniodd y Dirprwy Weinidog y cymorth y mae'n bwriadu ei gynnig i'w helpu i fod yn fwy uchelgeisiol cyn cyflwyno'r Mapiau Rhwydwaith Integredig diwygiedig nesaf, "Rwyf am ichi ddeall y profiadau yn iawn - yr elfennau cadarnhaol a negyddol - wrth weithredu'r ddeddfwriaeth, yn ogystal â'r rheini sydd ynghlwm wrth gynllunio cynlluniau penodol.

Rwyf am wybod yr hyn allai Llywodraeth Cymru ei wneud i'ch cefnogi i sicrhau eich bod yn cyflawni eich dyletswyddau o dan y Ddeddf. Rwyf eisoes yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd angen cymorth pellach yn y meysydd hyfforddiant dylunio a sut i ymgynghori ac ymgysylltu'n effeithiol.

Cynhyrchwyr Ffilm yn Pwysleisio Peryglon Gyrru

Mae myfyrwyr y Cyfryngau Creadigol yng Ngholeg Sir Benfro wedi bod yn tynnu sylw at y '5 Angheuol' wrth yrru.

Gwahoddwyd y myfyrwyr i greu ffilmiau byrion, gwreiddiol yn portreadu peryglon alcohol a chyffuriau, cyflymder, esgeulustod, peidio gwisgo gwregysau diogelwch a'r defnydd o ffonau symudol – y pum prif reswm dros ddamweiniau ac anafiadau ar y ffordd yng Nghymru.

Cafodd eu fideos eu cyflwyno mewn cystadleuaeth a drefnwyd ar y cyd gan y Coleg a thîm diogelwch ffyrdd Cyngor Sir Penfro.

Cynhyrchwyd y ffilm fuddugol gan Simon Latham. Derbyniodd Pierre Dizon a Megan Stanley gymeradwyaeth yn ogystal.

Bydd pob un o'r tri fideo'n cael eu defnyddio yn ystod ymgyrchoedd peidio yfed/defnyddio cyffuriau a gyrru yr haf a'r Nadolig.

Dywedodd Denys Bassett Jones, Arweinydd y cwrs Cyfryngau Creadigol yng Ngholeg Sir Benfro: "Rwyf wrth fy modd â chanlyniadau'r prosiect. Mae cystadlaethau byr, byw yn nodwedd bwysig o raglen y Cyfryngau Creadigol yng Ngholeg Sir Penfro ac mae'r myfyrwyr wedi cynhyrchu fideos pwerus ac ymgysylltiol."

Canmolodd Kirstie-Anne Donoghue, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Cyngor Sir Penfro greadigrwydd ffilmiau'r myfyrwyr gan ddweud eu bod yn ffyrdd effeithiol tu hwnt o drosglwyddo neges ymgyrch y 5 Angheuol.

Gellir gweld y fideos yma:
Simon Latham - 3 Seconds
Megan Stanley - The Story of....
Pierre Dizon - Don't Do It

Canolfan Gyfeirio ar gael ar-lein

Mae adran newydd ar wefan Diogelwch Ffyrdd Cymru wedi'i datblygu i storio adroddiadau, canllawiau ac arfarniadau ynglŷn â diogelwch ar y ffyrdd yn ddiogel.

I weld y dogfennau, ewch i:
www.roadsafetywales.org.uk/reference-centre

Gall sefydliadau a hoffai gyflwyno adroddiadau i'w cynnwys yn y dyfodol gysylltu â: communication@roadsafetywales.org.uk

Ariannu Camerâu Cyflymder Cyfartalog “Triongl Evo”

Yn dilyn Grant Diogelwch ar y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir Ddinbych a Chonwy wedi cydweithio i osod cynllun camera cyflymder cyfartalog.

Mae digwyddiadau o yrru’n beryglus gan gynnwys goryrru wedi parhau ar y ffordd, ac mae’r cynllun i wella diogelwch gyrwyr a lleihau damweiniau wedi cael ei arwain ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, er mwyn mynd i’r afael â digwyddiadau o’r fath. Mae’r cynllun yn ddull partneriaeth, gyda chyfraniadau gan Heddlu Gogledd Cymru a GanBwyll, Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru.

Dywedodd yr Uwcharolygydd Jane Banham, Pennaeth Gweithrediadau Arbenigol, Heddlu Gogledd Cymru: “Rydym wedi’n hymrwymo i gadw pobl yn ddiogel ar y ffyrdd, ac mae ein neges yn glir - rydym eisiau i bobl fwynhau rhyddid y ffordd, ond mewn modd diogel a chyfrifol. Yn llawer rhy aml, mae'r heddlu a’n partneriaid o fewn gwasanaethau brys eraill yn cael eu galw i ddamweiniau ffordd difrifol ac angheuol ar draws y rhanbarth. Rhaid i bob un ohonom fod yn ddiogel ar y ffordd, p’un ai hynny ar gerbyd dwy olwyn neu bedair olwyn.

“Er bod mwyafrif o fodurwyr yn gyrru'n briodol, mae rhai yn dewis defnyddio'r ffyrdd fel trac rasio, gan dorri deddfwriaethau diogelwch ar y ffyrdd, fel goryrru a gyrru’n beryglus, gan roi eu hunain a defnyddwyr eraill y ffordd mewn perygl o farwolaeth neu niwed a all newid bywyd.

“Yn ystod cyfnod gosod y cynllun camera cyflymder cyfartalog, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i ddarparu presenoldeb gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiad â’r gyfraith.”

Ychwanegodd Teresa Ciano, Rheolwr Partneriaethau, GanBwyll, “Bydd GanBwyll yn gweinyddu troseddau'r system camera cyflymder cyfartalog pan fyddent yn fyw. Bydd cyfnod ar ôl i’r offer ochr y ffordd gael ei osod, lle byddwn yn sefydlu ac yn profi’r isadeiledd TG a chyfathrebu er mwyn sicrhau cywirdeb yr offer.

“Nes bydd y camerâu yn gwbl fyw i gyflwyno hysbysiadau o’r bwriad i erlyn, bydd gwasanaeth gorfodaeth symudol GanBwyll i oryrru, peidio â gwisgo gwregys diogelwch a defnyddio ffonau symudol yn parhau i gefnogi Heddlu Gogledd Cymru i annog gyrru’n ofalus ar ffyrdd”

“Bûm yn gweithio gyda GanBwyll i gynllunio’r cynllun camerâu diogelwch, a byddwn yn parhau i hwyluso’r broses nes bydd y cam profi wedi’i gwblhau, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn fyw cyn gynted â phosib’.”

Dywedodd y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Cabinet Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy, Sir Ddinbych: “Rydym yn falch bod y cynnig am gyllid wedi bod yn llwyddiannus. Mae pryderon wedi bod yn lleol am y ffaith bod y ffyrdd hir, agored yn yr ardal yn denu modurwyr sydd eisiau profi eu cyflymder a'u gallu. Er ein bod ni’n deall bod harddwch naturiol y rhan hon o'r byd yn atyniad, rhaid i ni sicrhau bod modurwyr yn teithio ar ein ffyrdd yn ddiogel, drwy leihau eu cyflymder, glynu at arwyddion rhybudd a gwybodaeth sydd ar hyd y ffyrdd ac ystyried diogelwch defnyddwyr eraill y ffyrdd.

“Dim ond un rhan o’r ateb yw cyflwyno mesurau diogelwch ar y ffyrdd. Rydym angen i bobl newid eu hymddygiad wrth yrru ar ein ffyrdd, i ddiogelu eu hunain ac eraill.”

Dywedodd y Cynghorydd Donald Milne, Aelod Cabinet Cyngor Conwy dros yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau: “Mae digwyddiadau o yrru’n beryglus yn ymwneud a goryrru wedi bod yn bryder mawr i’r gymuned leol ers amser. Rydym wedi bod yn gweithio’n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych a Heddlu Gogledd Cymru i ganfod ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem, ac rydym wedi gweithio gyda GanBwyll i gynllunio gweithrediad y cynllun camerâu diogelwch. Rwy’n falch iawn o weld y camerâu'n cael eu gosod a'u profi, ac edrychaf ymlaen at weld y cynllun yn mynd yn fyw cyn gynted â phosib."

Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ymgynghori ar Opsiynau ar gyfer Gwahardd Teiars Hŷn

Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymgynghori ar opsiynau ar gyfer gwahardd teiars hŷn rhag cael eu defnyddio ar fysiau, coetsis, cerbydau nwyddau trwm a bysiau mini er mwyn helpu i gadw defnyddwyr y ffyrdd yn ddiogel. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi y bydd yn ymgynghori ar ddeddfwriaeth i'w gwneud yn anghyfreithlon i'r cerbydau hyn redeg â theiar 10 oed neu fwy. Mae hyn yn dilyn prosiect ymchwil, a lansiwyd gan y llywodraeth y llynedd, i ystyried a yw oedran teiar yn creu effaith uniongyrchol ar ei ddiogelwch.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Chris Grayling, "Cadw pobl yn ddiogel ar ein ffyrdd yw ein blaenoriaeth ni ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddeall y cysylltiad rhwng oedran teiars a diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a thystiolaeth arbenigwyr blaenllaw yn dangos bod angen gwahardd teiars dros 10 oed o gerbydau mawr, ar sail yr 'egwyddor ragofalus' - sef symudiad a fydd yn gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb."

Mae hyn yn dilyn yr ymgyrch 'Tyred', o dan arweiniad Frances Molloy, yr oedd ei mab 18 oed Michael yn un o dri a laddwyd mewn gwrthdrawiad coets ar yr A3 yn 2012. Cafodd y gwrthdrawiad ei achosi gan fethiant teiar 19 oed ar echel flaen y goets. Dywedodd y Gweinidog Ffyrdd, Jesse Norman, "Hoffwn dalu teyrnged i Frances Molloy a'r ymgyrch Tyred ar eu hymgyrch wych i wahardd teiars hŷn ar fysiau a choetsys. Rwy'n credu y bydd y newidiadau rydym yn ymgynghori yn eu cylch yn achub bywydau." Yn 2013, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth ganllawiau yn cynghori gweithredwyr bysiau yn erbyn gosod teiars hŷn ar echelau blaen eu cerbydau. Atgyfnerthwyd hyn drwy 136,263 o archwiliadau ar fysiau a choetsys gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ers mis Mehefin 2017. Ym mis Tachwedd y llynedd, cafodd canllawiau'r DVSA ar gadw cerbydau'n addas ar gyfer y ffordd eu diweddaru i ddweud na ddylai teiars 10 oed neu fwy gael eu defnyddio ar echelau blaen cerbydau nwyddau trwm yn ogystal â bysiau a choetsys. Hefyd, comisiynodd y llywodraeth ymchwil o'r radd flaenaf ledled y byd yn 2018 i sefydlu bod oedran yn creu effaith ar gyfanrwydd teiars cerbydau ffordd. Fel rhan o'r ymchwil hon, mae Labordy Ymchwil Trafnidiaeth y Deyrnas Unedig wedi cydweithio â labordy blaenllaw yn yr Unol Daleithiau i wneud gwaith profi a dadansoddi. Cyhoeddir canlyniad y gwaith ymchwil hwn yn ddiweddarach eleni.

Cynnal Ffyrdd Lleol

Yn ôl arolwg blynyddol Cynnal a Chadw Ffyrdd yr Awdurdodau Lleol (ALARM) eleni, a gyhoeddwyd gan Gynghrair y Diwydiant Asffalt (AIA), mae yna arwyddion bod cynnydd yng nghyllidebau cynnal-a-chadw priffyrdd yr awdurdodau lleol yn rhwystro'r dirywiad yng nghyflwr y rhwydwaith ffyrdd lleol. Er hynny, mae'r buddsoddiad uwch yn dal yn llai na'r hyn y mae ei angen i gynnal-a-chadw ffyrdd lleol y unol â'r cyflwr sydd wedi'i dargedu. Am yr ail flwyddyn o'r bron, mae cyllidebau cynnal-a-chadw priffyrdd yr awdurdodau lleol wedi cynyddu bron 20% ac yng Nghymru mae nifer y ffyrdd sy'n cael eu dosbarthu fel 'gwael' wedi gostwng o 17% i 12%.

Er hynny, dywedodd Rick Green, Cadeirydd yr AIA, "Mae yna lygedyn o obaith ond, er bod y cyllidebau cynnal-a-chadw priffyrdd wedi codi'n gyffredinol, mae anghysondeb mawr. Gan fod y swm sy'n angenrheidiol i godi'r rhwydwaith ffyrdd lleol i'r safon ofynnol yn dal yn agos at £10 biliwn, mae angen buddsoddi'n barhaus dros amserlen hirach os ydym am gael rhwydwaith ffyrdd lleol sy'n cefnogi gwell symudedd, cysylltedd a chynhyrchedd.

"Y llynedd nododd yr AIA fod angen £1.5 biliwn o arian ychwanegol ar gyfer ffyrdd lleol bob blwyddyn am y 10 mlynedd nesaf i ganiatáu iddyn nhw gael eu codi i gyflwr lle gallan nhw gael eu rheoli mewn ffordd gost-effeithiol. Rydyn ni'n dal at yr alwad hon." Gweler y ffeithiau allweddol yma.